

# Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol

Dylai arolygwyr cofnodol sicrhau eu bod, yn yr adran am gyd-destun y darparwr, yn cynnwys manylion, lle bo'n berthnasol, am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad, a nifer y disgyblion y mae Saesneg / Cymraeg yn iaith ychwanegol iddynt. Dylai pob arolygydd tîm sicrhau eu bod yn defnyddio'r derminoleg gywir wrth gyfeirio at ieithoedd cymunedol ac osgoi enwau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin os ydynt yn anghywir. Byddai'r arweiniad hwn yn berthnasol hefyd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, i'r disgyblion hynny sydd â iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt.

Mewn darparwyr lle mae cyfran y disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn nodwedd arwyddocaol, dylai sylwadau am faterion fel safonau, lles, profiadau dysgu ac ati, gael eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad llawn.

## **Mae cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol yn cynnwys:**

- A oes polisi darparwr cyfan i gynorthwyo disgyblion sy'n dysgu Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol, ac os oes, a yw'n cael ei weithredu'n gyson?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i ddisgyblion sydd â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd y mae'r disgyblion yn eu siarad?
- A yw'r cwricwlwm cyfan ar gael i ddisgyblion sydd â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol?
- A oes unrhyw athrawon prif ffrwd wedi cael hyfforddiant i'w helpu nhw i ddeall anghenion dysgu disgyblion sydd â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol?
- Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng staff cymorth Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol ac athrawon prif ffrwd?
- Sut mae gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd a, lle bo'n berthnasol, yn ystod unrhyw sesiynau tynnu allan o wersi, wedi'u trefnu i ddiwallu anghenion penodol y disgyblion sy'n dysgu Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r darparwr yn olrhain llwyddiant ei ddarpariaeth Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol drwy werthuso cyraeddiadau'r disgyblion, ac a yw'n defnyddio'r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwella?
- Sut mae'r darparwr yn diwallu anghenion disgyblion sydd â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol pan nad oes unrhyw staff ar gael?
- A yw'r darparwr yn darparu cyfieithiadau o lythyrau a dogfennau'r darparwr mewn ieithoedd cymunedol? Os nad ydyw, sut mae'n cyfathrebu â rhieni sydd ag ychydig o Saesneg/Cymraeg neu ddim o gwbl?

- Sut mae'r darparwr yn asesu anghenion disgyblion sydd â Saesneg / Cymraeg fel iaith ychwanegol os oes amheuaeth bod ganddynt anghenion addysgol arbennig hefyd?